



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

HAF 2024

**TGAU
CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4
3020U40-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TGAU CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4

CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2024

Adran A

[11 + ✓ = 2] = [13]

A1. Darllenwch y poster isod ac atebwch y cwestiynau.

- (i) Mae'r poster yn rhoi gwybodaeth am Lan-llyn. Dewiswch 3 llun addas gellir eu rhoi ar y poster. [3]

				
✓		✓	✓	

- (ii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch un ateb. [2]

- **Mae'n bosibl gwneud chwaraeon dŵr yng Nglan-llyn.**
- Dydy hi ddim yn bosibl gwneud chwaraeon tîm yng Nglan-llyn.
- Rhaid talu mwy i wneud y gweithgareddau.

- (iii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch un ateb. [2]

- Does dim brecwast ar gael yng Nglan-llyn.
- **Mae rhywbeth i bawb fwyta yng Nglan-llyn.**
- Does dim bwyd i berson sy ddim yn bwyta cig.

- (iv) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch un ateb. [2]

- Mae penwythnos yng Nglan-llyn yn costio dros gan punt.
- **Dydy penwythnos yng Nglan-llyn ddim yn costio dros gan punt.**
- Mae penwythnos yng Nglan-llyn yn costio naw deg punt.

- (v) Yn defnyddio'r wybodaeth ar y poster, atebwch y cwestiwn. $[2 + \checkmark = 2] = [4]$

Hoffech chi ddod i Wersyll yr Urdd Glan-llyn? Pam?

Nodi os ydynt eisiau/ddim eisiau mynd gan gyfeirio at rywbeth o'r poster a chynnig rheswm pam = 2 farc cynnwys a 2 farc mynegiant. **Rhaid cael 2 gystrawen wahanol, gywir i gael 2 farc mynegiant.**

4 marc am ddefnyddio'r wybodaeth o'r poster mewn brawddegau cyfathrebol e.e

Hoffwn i fynd i Lan-llyn achos rydw i'n hoffi dringo.
Carwn fynd i Lan-llyn achos rydw i'n hoffi siarad Cymraeg.
Hoffwn i ddim mynd i Lan-llyn achos dydw i ddim yn hoffi bowlïo deg.
Dydw i ddim yn hoffi Glan-llyn achos mae'n gas gen i rafftio.
Wrth gwrs achos dw i'n hoffi dringo.

A2.

[12]

Darllenwch beth mae'r bobl yn dweud am eu profiad nhw o fod ar benwythnos yng Nglan-llyn.

(i) Llenwch y bylchau gyda'r enw cywir. **[5]**

Mae'n well gan **Mr Daniels** ddysgu iaith drwy ddefnyddio technoleg. **[1]**

Dysgodd **Megan** siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol. **[1]**

Dydy **Tanya** ddim yn cael llawer o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn yr ysgol. **[1]**

Mae **Megan / Tanya** yn meddwl bod siarad Cymraeg tu allan i wersi yn bwysig. **[1]**

Aeth **Tanya** i Lan-llyn yn ddiweddar. **[1]**

(ii) Atebwch y cwestiynau isod yn defnyddio'r wybodaeth yn y darn. **[7]**

a) Pryd aeth Tanya i Lan-llyn? **Penwythnos diwethaf** **[1]**

b) Ym mha flwyddyn aeth Megan i'r Eisteddfod? **Dwy fil ac un deg pedwar/ 2014**
[1]

c) Yn ôl Mr Daniels, pa sianel deledu allwch chi ddefnyddio i'ch helpu chi i ddysgu Cymraeg? **S4C** **[1]**

ch) Pa ddau declyn technoleg mae Mr Daniels yn hoffi defnyddio?

(i) **iPads** **[1]**

(ii) **Kahoot** **[1]**

(iii) Ffôn symudol (hefyd yn dderbyniol)

(d) Pa ddau berson sy'n meddwl mai mynd i Lan-llyn ydy'r ffordd orau o ddysgu Cymraeg?

(i) **Tanya** **[1]**

(ii) **Megan** **[1]**

A3

[3 + ✓ = 2] = [5]

Ysgrifennu

Yn ôl Tanya, Megan a Mr Daniels mae siarad Cymraeg yn syniad da

Ydych chi'n cytuno gyda nhw?

1 marc am gytuno / anghytuno e.e.

Dwi'n cytuno / anghytuno / Rydw i'n cytuno / anghytuno

Ydw / Nac ydw,

Heb os / Yn bendant / Yn sicr

Ydw / Nac ydw

Wrth gwrs

****Does dim o reidrwydd angen cael yr ymatebion uchod yn y rhan gyntaf cyn gallu gwobrwyo marciau yn y ddwy ran nesaf cyn belled â bod yr ymatebion yn rheswm 1 a 2 yn glir o ran eu safbwynt.**

Pam?

2 farc yr un am reswm cyfathrebol sy'n cyd-fynd â'u hateb i'r cwestiwn uchod [uchafswm o 4 marc] 2 reswm cwbl wahanol i gael marciau llawn.

e.e

+ Ydw

"Rydw i'n hoffi dysgu Cymraeg efo ffrindiau yn gwneud gwahanol bethau cyffrous."

"Mae mynd i Lan-llyn yn helpu dysgu Cymraeg mewn ffordd llawn hwyl"

"Mae siarad Cymraeg yn edrych yn dda ar y CV a mae'n helpu gyda swyddi"

- Nac ydw

"Dydw i ddim yn hoffi Glan-llyn achos mae'n ddiflas."

"Mae Glan-llyn yn ddrud a dydw i ddim yn gallu fforddio £95."

"Mae dysgu iaith yn anodd".

A4

[5 + ✓ = 5] = [10]

Mae mynd ar drip ysgol yn gallu bod yn brofiad addysgiadol.

Rhaid i chi drafod:

- (i) Ydych chi'n hoffi mynd ar dripiâu ysgol? Pam? [2]
- (ii) Trip ysgol aethoch chi arno yn ddiweddar. Pryd? [2]
- (iii) Manteision mynd ar drip ysgol. [1]

Cynnwys [5]

Mynegiant [5]

5 marc	Disgrifiad diddorol yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol gywir (gan gynnwys dau amser y ferf), mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus.
4 marc	Disgrifiad da yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol gywir, mynegi barn effeithiol a rhesymu da.
3 marc	Disgrifiad syml yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol gywir, mynegi barn a rhesymu da.
2 marc	Ymgais i greu paragraff yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol gywir ac ymdrech i fynegi barn.
1 marc	Ymgais i greu ateb yn cynnwys o leiaf 1 gystrawen gywir.

A5

[9]

Darllenwch y gerdd ac atebwch y cwestiynau.

- (i) Pa fwydydd sy'n cael eu trafod yn y gerdd? [3]

1 marc yr un [uchafswm o 3 marc]

Siocled, afalau taffi / afalau / taffi, cŵn poeth, candi fflós, nionod, pysgod, sglodion, cnau coco

- (ii) Ticiwch (✓) yr atebion cywir yn y grid. [2]

Beth enillodd Nicholas yn y ffair?	 ☐	 ☐	 ☒
Sut oedd Nicholas yn teimlo ar ddiwedd y noson?	 ☐	 ☒	 ☐

- (iii) Ticiwch (✓) yr atebion cywir yn y grid. [4]

	Ydy	Nac Ydy
Ydy'r gerdd yn sôn am hobiau?		✓
Ydy'r gerdd yn sôn am Nicholas yn mynd i'r ffair yn y dydd?		✓
Ydy Nicholas yn bwyta pysgod a sglodion yn y ffair?		✓
Ydy Nicholas yn mynd adref gyda dau bysgodyn aur?	✓	

Adran B

[11]

B6 Darllenwch y darn isod ac atebwch y cwestiynau.

(i) Ticiwch (✓) y bocs cywir

[5]

	Cywir	Anghywir
Mae dwy brif Eisteddfod yn cael eu cynnal bob blwyddyn yng Nghymru	✓	
Mae Diwrnod Santes Dwynwen yn cael ei ddathlu yn y gaeaf.	✓	
Dim ond Cymry sy'n gallu dathlu gwyliau/digwyddiadau Cymreig.		✓
Mae Diwrnod Shwmae/Su'mae yn cael ei ddathlu mewn ysgolion ers chwe blynedd.		✓
Mae diwrnod arbennig er mwyn dathlu cerddoriaeth Gymraeg	✓	

Defnyddiwch y wybodaeth ar y poster i ateb y cwestiynau isod.

(ii) Yn ôl y poster, beth ydy'r manteision o ddathlu gwyliau/digwyddiadau Cymreig?

Dysgu llawer am ddiwylliant (Cymru)

Plant yn **cael** hwyl wrth ddathlu

(Gallu) **gwisgo** dillad arbennig (cennin pedr / crysau rygbi)

Gwneud tasgau gwahanol yn y dosbarth

Helpu siarad Cymraeg

[4 marc am ddau reswm]

(iii) Pa un o'r diwrnodau hoffech chi ddathlu yn eich ysgol chi? Pam?

[2]

Diwrnod Santes Dwynwen, Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, Dydd Gŵyl Dewi, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol, Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Miwsig Cymru, Wythnos y Dysgwyr, Diwrnod Shwmae / Su'mae
Dim un o'r gweithgareddau (casáu bob un ohonynt)

2 farc am ateb a rheswm e.e "Hoffwn i ddathlu Wythnos y Dysgwyr achos rydw i'n mwynhau dysgu ieithoedd." / "Dydd Gŵyl Dewi achos mae'n bwysig."

Does dim angen "Hoffwn i / Hoffwn i ddim" ar ddechrau'r ateb i gael marciau llawn.

B7. Ysgrifennu

[8 + ✓ = 7] = [15]

Mae dathliadau gwahanol yn chwarae rhan bwysig ym mywydau llawer o bobl.

Rhaid i chi ysgrifennu am y canlynol:

- Beth ydy eich hoff ddathliad? e.e pen-blwydd, diwedd TGAU [2]
- Beth ddathloch chi yn ddiweddar? [2]
- Sut ydych chi'n dathlu gyda'ch ffrindiau? [2]
- A ddylai Llywodraeth Cymru wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc swyddogol? Pam? [2]

Cynnwys [8]

- 1 marc am nodi eu hoff ddathliad mewn brawddeg gyfathrebol a marc ychwanegol am gynnwys manylyn ychwanegol i gyd-fynd:

Fy hoff ddathliad ydy fy mhen-blwydd achos rydw i'n caru cael anrhegion. = 2 farc

- 1 marc am nodi beth ddathlon nhw'n ddiweddar/ddiwethaf a marc ychwanegol am gynnwys manylyn ychwanegol i gefnogi:

Penwythnos diwethaf dathlais i ddiwedd fy arholiadau gyda fy nheulu mewn bwyty swanc. Sôn am hyfryd. = 2 farc

- 1 marc am nodi beth/sut maen nhw'n dathlu gyda'u ffrindiau a manylyn ychwanegol i gefnogi:

Bydda i'n dathlu penbwyddi gyda fy ffrindiau achos mae'n bwysig. Rydyn ni'n mynd i chwarae bowlïo deg yn y ganolfan fowlïo. = 2 farc

- 1 marc am ymateb i'r cwestiwn yn mynegi barn os ddylai'r llywodraeth wneud DGD yn ŵyl y banc swyddogol a marc ychwanegol am gynnig rheswm:

Yn fy marn i, dwi'n meddwl dylai'r llywodraeth wneud dydd Gwyl Dewi yn ŵyl y banc achos mae pobl Cymru yn hoffi dathlu gyda'r teulu. = 2 farc.

Mynegiant [7]

6-7 marc	• Defnyddio o leiaf 5 patrwm brawddegol gwahanol yn gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir (o leiaf 3). • Sillafu ac atalnodi cywir.
4-5 marc	• Defnyddio o leiaf 4 patrwm brawddegol gwahanol yn gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir (o leiaf 2). • Sillafu ac atalnodi da ar y cyfan.
3 marc	• Defnyddio o leiaf 3 phatrwm brawddegol gwahanol yn gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir (o leiaf 2). • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir.
2 farc	• Defnyddio o leiaf 2 patrwm brawddegol gwahanol yn gywir. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir. • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir
1 marc	• Defnyddio o leiaf 1 patrwm brawddegol gwahanol. • Defnydd ansicr o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol. • Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi.

Adran C

[12 + ✓ = 13] = [25]

C8. Ysgrifennwch yn Gymraeg ar un o'r canlynol (tua 150 o eiriau)

Naill ai

(a) Ysgrifennwch bortread o aelod o'ch teulu.

Rhaid i chi gynnwys:

- Sut mae'r person yn edrych? [2]
- Beth ydych chi'n hoffi am y person? [2]
- Personoliaeth y person [2]
- Sut rydych chi'n debyg/wahanol? [2]
- Eich hoff atgof gyda'r person [2]
- Beth hoffai'r person wneud yn y dyfodol? [2]

Neu

(b) Mae eich prifathro wedi gwahardd y defnydd o wefannau cymdeithasol yn ystod oriau ysgol ac yn honni eu bod nhw'n cael effaith negyddol ar bobl ifanc. Ysgrifennwch lythyr at eich prifathro yn mynegi eich barn am y penderfyniad.

Rhaid i chi gynnwys:

- Ydych chi o blaid neu yn erbyn y gwaharddiad? Pam? [2]
- Ydych chi'n defnyddio gwefannau cymdeithasol? [2]
- Y problemau gyda gwefannau cymdeithasol. [2]
- Pa dechnoleg fydddech chi'n defnyddio i fynd ar y gwefannau? [2]
- Manteision defnyddio'r gwefannau mewn gwersi? [2]
- Anfanteision defnyddio'r gwefannau. [2]

Cynnwys – 12 marc

Mynegiant – 13 marc

Cynnwys [12]

Mynegiant [13]

Band 6 11-13 marc	• Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb. <u>Defnydd cywir o'r 6 Rheol Digyfnwid.</u> • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. • Sillafu ac atalnodi cywir.
Band 5 9-10 marc	• Cyfathrebu'n weddol hyderus gydag elfen amlwg o gywirdeb. <u>Defnydd cywir o fwyafrif o'r 6 Rheol Digyfnwid.</u> • Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Sillafu ac atalnodi eithaf cywir.
Band 4 7-8 marc	• Cyfathrebu'n rhwydd gyda'r iaith yn gywir ar y cyfan. • Defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan. • Sillafu ac atalnodi eithaf cywir.
Band 3 4-6 marc	• Cyfathrebu'n weddol rwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan. • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir. • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir.
Band 2 1-3 marc	• Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig. • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol. • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir.
Band 1 0 marc	• Mynegiant amhriodol neu heb ymateb.

**Os nad yw'r cynnwys yn berthnasol allwch chi ddim ystyried gwobrwyo marciau mynegiant.

** Nid oes modd gwobrwyo yn uwch na Band 3 am y defnydd o'r presennol yn unig.